Gweithdy Lles Cymunedol Sain Tathan - Ymateb y Tîm Prosiect
Ebrill 2009

TROSOLWG

Mae'r ddogfen hon yn gofnod o rai o'r sylwadau a wnaed yn ystod y Gweithdy Lles Cymunedol yng Nghlwb Golff Sain Tathan ar ddydd Iau 4 Rhagfyr, 2008 ac ymateb y tîm prosiect iddynt.

Mae'r pwyntiau hyn bellach wedi eu bwydo i'r broses gynllunio ac er ei bod yn amhosib gweithredu ar bob pwynt, maent i gyd wedi eu hystyried gan y tîm prosiect fel rhan o'r broses ymgynghori.

i) Adnoddau Chwaraeon

a) Mynediad i adnoddau

CWESTIYNAU AC ATEBION

1. **Pa sicrwydd sydd yna y bydd y cyhoedd yn gallu defnyddio'r adnoddau yn ystod amseroedd o ddiogelwch uchel?**

   Fel gydag unrhyw adnodd cyhoeddus pan fydd rhybudd diogelwch, mae diogelwch yn flaenoriaeth. Os fydd angen cloi, bydd mynediad i'r adnoddau chwaraeon a hamdden yn cael ei wahardd dros dro nes bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn gwbl fodlon ei bod yn ddiogel i'w hagor unwaith eto

   Ychydig iawn o rybuddion diogelwch sydd wedi bod yn y ganolfan yn y gorffennol ac maen nhw wedi tueddu i fod ar adegau o ddiogelwch cenedlaethol uchel pan fo nifer o adnoddau, yn arbennig canolfannau trafnidiaeth fel gorsafoedd trenau a meysydd awyr, wedi cael eu rhoi ar rybudd hefyd.

2. **Os fydd cloi oherwydd diogelwch, am faint o amser y gellir gwahardd mynediad? Os yw clybiau'n defnyddio'r adnoddau i hyfforddi ar gyfer cystadlaethau, gall unrhyw ymyrraeth yn yr amserlen hyfforddi fod yn niweidiol iawn.**

   Byddem yn gobeithio y byddai unrhyw gyfnod cloi yn fyr a gyda'r lleiafswm o ymyrraeth. Fodd bynnag, mae diogelwch yn flaenoriaeth ac ni fyddai'r adnoddau'n ail agor nes bod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn hollol fodlon ei bod yn ddiogel.

3. **Beth fyddai'r lefelau diogelwch, fydd yna system defnyddio pas?**

Er bod diogelwch yn allweddol bwysig, mae'r adnoddau chwaraeon a hamdden wedi eu lleoli'n bwrpasol mewn ardal llai sensitif o ran diogelwch - i'r gogledd o Ffordd Eglwys Brewis, 'y tu hwnt i'r weiar' ac oddi wrth adnoddau dysgu craidd. Felly, rydym yn rhagweld y bydd mynediad yn gweithio yn yr un modd a gydag unrhyw adnodd arall o'r math hwn ac y bydd diogelwch cyffredinol yn seiliedig ar sicrhau bod cerbydau'n cael eu cadw o fewn pellter penodol o'r adeiladau fydd ddim yn effeithio ar fynediad dyddiol i'r mwyafrif o ddefnyddwyr.

4. **Fydd yr adnoddau hamdden y tu hwnt i'r weiar?**

Byddan. Mae rhan sylweddol o'r adnoddau chwaraeon a hamdden wedi eu lleoli'n fwriadol mewn ardal lai sensitif o ran diogelwch 'y tu hwnt i'r weiar' i'r gogledd o Ffordd Eglwys Brewis.

5. **Sut fydd pobl yn mynd at yr adnoddau o Ffordd Eglwys Brewis?**

Fe fydd ffordd ystâd yn union oddi ar Ffordd Eglwys Brewis fydd yn arwain at faes parcio cyhoeddus.

6. **Sut fydd pobl yn mynd at yr adnoddau o Lanmaes? Fyddai yna fynediad ychwanegol o'r ffordd sy'n ffinio ar ffin orllewinol safle'r adnoddau chwaraeon?**

Bydd pobl Llanmaes yn cyrraedd yr adnoddau yn yr un modd a phawb arall trwy gyfrwng Ffordd Eglwys Brewis. Does dim cynlluniau ar y gweill i greu mynediad ychwanegol o'r ffordd sy'n ffinio ar y ffin orllewinol.

7. **Fydd gan bobl o'r Gwersyll Gorllewin fynediad i'r adnoddau ac ar ba amseroedd?**

Bydd gan bobl o'r Gwersyll Gorllewin fynediad i'r adnoddau hyn y tu allan i oriau hyfforddi craidd (Llun - Gwe 0800 - 1800) fel aelodau'r cyhoedd.

8. **Trwy gadw amseroedd ar wahân i ddefnydd milwrol a sifilaidd, fydd hyn yn creu gwrthdaro a theimlad o 'ni a nhw'?**

Pwynt diddorol. Bydd myfyrwyr a phersonél milwrol yn rhydd i ddefnyddio'r adnoddau chwaraeon a hamdden ar sail unigol ynghyd a'r gymuned pan fydd yr adnoddau hyn ar agor i'r cyhoedd. Bydd hyn yn gyfle da i'r gymuned a phersonél milwrol gymysgu. Fodd bynnag, mae rhesymau da pam na all y cyhoedd ddefnyddio'r adnoddau yn ystod diwrnod hyfforddi, yn anad dim bydd yr adnoddau'n llawn.

9. **Beth fydd yr oriau ar gyfer defnydd i'r cyhoedd? Byddai'r rhan fwyaf o bobl yn hoffi mynediad yn ystod y dydd – beth fydd yn y print man?**

Bydd yr adnoddau hyn yn cael eu defnyddio'n bennaf gan fyfyrwyr, hyfforddwyr a phersonel sifilaidd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ystod oriau hyfforddi craidd (Llun - Gwe 0800 - 1800). Bydd gan y cyhoedd gyfle i ddefnyddio'r adnoddau hyn ar adegau eraill.

Fel gydag adnoddau eraill o'r math hyn, mae mwy o alw gan y cyhoedd i'w defnyddio yn ystod gyda'r nosau ac ar benwythnosau ac nid yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos waith.

10. **Pa fynediad fydd yna i glybiau lleol, ysgolion a'r Coleg Addysg Bellach?**

Mae hyn yn dal i'w benderfynu ac yn bwnc trafod. Fodd bynnag, mae'r holl bartïon yn awyddus i weld yr adnoddau chwaraeon a hamdden yn cael eu defnyddio gan glybiau lleol, ysgolion ayb.

11. **Fydd defnydd lleol o'r adnoddau yn cael ei gymell e.e. gyda phwyntiau gwobrwyo neu gynllun teyrngarwch?**

Mae hwn yn bwynt da ac yn rhywbeth sy'n cael ei drafod ar hyn o bryd gyda Chyngor Bro Morgannwg.

12. **Wedi clywed ei bod ond yn bosib defnyddio'r adnoddau chwaraeon fel rhan o grwp wedi ei drefnu - ydi hyn yn wir?**

Ar yr amseroedd penodol ar gyfer defnydd y cyhoedd, bydd y mwyafrif o'r adnoddau fel y pwll nofio a'r ystafell ffitrwydd ar agor i aelodau unigol o'r cyhoedd. Fodd bynnag, yn amlwg os ydych yn bwriadu defnyddio'r meysydd pêl droed er enghraifft, yna bydd angen bwcio fel grwp.

13. **Beth fydd effaith hyn ar adnoddau eraill yn yr ardal?**

Nid yw Metrix yn bwriadu i'r adnoddau hyn gael effaith ar adnoddau sy'n bodoli eisoes ym Mro Morgannwg. Cyngor Bro Morgannwg sy'n gyfrifol am reolaeth adnoddau eraill a'r Cyngor fyddai'n gwneud unrhyw benderfyniadau yn hyn o beth.

14. **Beth fydd y gost i bobl ddefnyddio'r adnoddau?**

Mae hyn yn dal i'w gytuno ond bydd costau yn cymharu gyda rhai mewn adnoddau tebyg ar draws y Fro.

SYLWADAU AC YMATEBION

15. **Mae'n bwysig bod gan ysgolion a chlybiau fynediad i'r adnoddau hyn. Dylent hefyd dderbyn triniaeth ffafriol**

Rydym ni'n credu bod hyn yn bwysig hefyd. Er bod hyn yn dal i'w benderfynu'n llawn ac yn bwnc trafod, mae'r holl bartïon yn awyddus i weld yr adnoddau chwaraeon a hamdden yn cael eu defnyddio gan glybiau lleol, ysgolion ayb.

16. **Mae angen i ysgolion lleol gael eu cynnwys yn y broses penderfyniadau a rhaid i bobl ifanc gael mynediad i'r adnoddau hyn**

Pwynt da. Rydym yn ymgynghori'n agos gyda Chyngor Bro Morgannwg a'r Adran Plant, Addysg, Addysg Gydol Oes a Sgiliau. Bydd rhan o'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys sicrhau bod anghenion pobl ifanc yn cael eu cynrychioli.

17. **Nodwyd bod mynediad y cyhoedd i adnoddau ar hyn o bryd yn fuddiol pan fo'r ysgolion ar eu gwyliau ond yn amlwg byddai'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn ddefnyddiwr llawn amser.**

Fel y nodwyd eisoes, mae'r adnoddau chwaraeon a hamdden arfaethedig yno'n bennaf i wasanaethu personél milwrol. Bydd yr adnoddau hyn yn cael eu defnyddio gan y myfyrwyr yn

bennaf yn ystod oriau hyfforddi craidd (Llun - Gwe 0800 - 1800). Ar adegau eraill, ar amseroedd i'w cadarnhau, bydd rhai adnoddau (y tu hwnt i'r weiar) ar gael at ddefnydd y cyhoedd. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

Ystafell ffitrwydd
Cyrtiau Chwarae Dan Do
Pwll Nofio
Trac Rhedeg
Meysydd Chwarae (yn cynnwys Llifoleuadau ac Astroturf)

18. **Byddai'n dda i gael mynediad cyhoeddus yn y boreau, gyda'r nosau ac ar benwythnosau**

Gweler ateb cwestiwn 17 (uchod) os gwelwch yn dda.

19. **Dylai mynediad i'r adnoddau fod yn integredig gyda phoblogaethau milwrol a sifilaidd yn eu defnyddio ar yr un amseroedd**

Gweler ateb cwestiwn 8 (uchod) os gwelwch yn dda.

20. **Mae angen ystyried mynediad llawn i bobl anabl – y tu allan a'r tu mewn – a dylid ystyried anghenion pob sector yn y gymuned**

Pwynt da a rhywbeth yr ydym eisoes yn ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod pob rhan o'r gymuned yn gallu cael mynediad i'r adnoddau hynny sydd ar gael i'r cyhoedd.

21. **Bydd yr adnoddau chwaraeon yn cael eu gorddefnyddio gan yr academi filwrol. Fydd yna lawer o fudd gwirioneddol i'r gymuned leol?**

Bydd. Gweler ateb cwestiwn 17 (uchod) am fwy o fanylion.

22. **Dylai cost defnyddio fod yn gyffelyb i adnoddau lleol eraill a dylid eu prisio o fewn ystod y cyhoedd a chynnig gostyngiadau. Dylent hefyd fod yn gyffelyb i adnoddau lleol eraill fel nad ydynt yn cau o ganlyniad**

Rydym yn cytuno. Fel y nodwyd eisoes, tra bod costau terfynol yn dal i'w cytuno, byddant yn debyg i'r rhai mewn adnoddau tebyg ar draws y Fro.

23. **Ni ddylai personél sy'n gwasanaethu a'u teuluoedd fod yn gallu defnyddio adnoddau yn Sain Tathan. Dylent gael eu gorfodi i ddefnyddio'r adnoddau 'tu mewn i'r weiar'**

O ystyried ansawdd ardderchog yr adnoddau chwaraeon a hamdden newydd a pha mor agos fyddant at y Coleg Technegol Amddiffyn a'r Llety Teuluoedd sy'n Gwasanaethu, rhagwelir y bydd y mwyafrif o bersonél milwrol yn dewis eu defnyddio yn hytrach na theithio i rywle arall yn y Fro.

24. **Dylai amseroedd agor i'r cyhoedd fod yn rhesymol a dylid rhoi blaenoriaeth i ddefnydd gan y gymuned. Dylid cael amser wedi'i neilltuo ar gyfer defnyddio adnoddau fel y pwll nofio ar gyfer grwpiau dysgu/grwpiau babanod/ysgolion ayb.**

Gweler ateb cwestiwn 7 (uchod) os gwelwch yn dda.

25. **Bydd yr adnoddau hamdden yn creu mwy o gylchdro traffig o Lanilltud Fawr**

Mae gofynion mynediad i'r adnoddau hamdden yn cael eu hystyried fel rhan o'r Cynllun Teithio Gwyrdd. Byddai beicwyr yn dod o Lanilltud Fawr yn gallu defnyddio'r llwybr beicio newydd fydd wedi ei greu ar hyd y Ffordd Mynediad Gogleddol.

26. **Mae angen i ni ganolbwyntio ar adnoddau i blant a phobl dros 60**

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael i'r cyhoedd ar gael i bob rhan o'r gymuned. Rydym hefyd yn ystyried adnoddau penodol all apelio at bobl iau a hyn.

27. **Wedi clywed llawer o siarad dros y blynyddoedd, yr hyn rydym ei eisiau nawr yw sicrwydd fel y gallwn ni (fel cynghorwyr) fynd a gwerthu'r cynllun**

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn a Metrix yn hollol ymrwymedig i'r prosiect hwn a dros y misoedd diwethaf mae llawer o ddatblygiadau da wedi digwydd. Mae popeth ar y trywydd iawn a bydd cais am gynllunio yn cael ei gyflwyno i Gyngor Bro Morgannwg ym mis Mai 2009.

b) Adnoddau

CWESTIYNAU AC ATEBION

1. **Fydd yr adnoddau yn ategu yn hytrach na chymryd lle adnoddau lleol eraill, yn arbennig y rhai hynny yn Llanilltud Fawr?**

Nid yw Metrix yn bwriadu i'r adnoddau hyn gael effaith ar adnoddau sy'n bodoli eisoes ym Mro Morgannwg. Cyngor Bro Morgannwg sy'n gyfrifol am reolaeth adnoddau eraill a'r Cyngor fyddai'n gwneud unrhyw benderfyniadau yn hyn o beth.

2. **Fydd parcio digonol yn cael ei ddarparu?**

Bydd parcio digonol yn cael ei ddarparu a bydd yn unol â chanllawiau gan Gyngor Bro Morgannwg.

3. **Mae'r gwasanaethau heddlu ac ambiwlans yn chwilio am adnodd (mater a godwyd mewn cyfarfod partneriaeth heddlu) – ydi Metrix wedi siarad gyda nhw?**

Rydym yn ymgynghori'n agos gyda'r heddlu ac maent yn mynychu cyfarfodydd Grwp Partneriaeth Sain Tathan yn rheolaidd. Mae adnoddau newydd wedi eu trafod ond does dim cynlluniau ar hyn o bryd i'r heddlu na gwasanaethau ambiwlans adleoli i Sain Tathan.

SYLWADAU AC YMATEBION

4. **Nodwyd bod gan y gymuned lawer i'w ennill o ddatblygiad yr adnoddau chwaraeon ac y byddai hyn yn cael ei groesawu gan y Fro**

Ydym, rydym yn credu y bydd y gymuned yn ennill llawer o'r adnoddau newydd a gobeithio y byddant yn cael eu defnyddio'n dda.

5. **Bydd y pwll nofio'n cael ei groesawu**

   Rydym ni'n meddwl hynny hefyd.

6. **Gallai'r adnoddau ddod yn ganolfan ar gyfer rhagoriaeth chwaraeon, yn arbennig yn dilyn Gemau Olympaidd 2012**

   Does dim amheuaeth y bydd yr adnoddau chwaraeon a hamdden a ddarparir o safon uchel iawn.

7. **Nodwyd bod yr adnoddau presennol fydd ar gael i'r cyhoedd wedi eu hanelu at grwpiau oedran hýn ac nad oes llawer o adnoddau ar gyfer plant iau a babanod. Mae angen ystyried hyn, er enghraifft meysydd llai ar gyfer plant**

   Pwynt da ac un a godwyd gan sawl person yn y digwyddiad. Dyma rywbeth yr ydym yn ei ddatblygu'n weithredol.

8. **Mae angen datblygu mwy o gyrtiau sboncen**

   Teimlir bod y nifer presennol o gyrtiau fydd yn cael eu darparu'n addas i ymdopi gyda galw arfaethedig.

9. **Pwysig nad yr adnoddau yn unig sy'n cael eu darparu ond yr offer i alluogi'r cyhoedd i wneud y gorau ohonynt e.e. clwydi ar gyfer y trac athletau**

   Mae yn bwysig ac fe fyddwn yn darparu offer fel rhan o'r ailddatblygiad.

10. **Gwnaed ceisiadau i ystyried ychwanegu'r adnoddau canlynol a'u hagor i'r cyhoedd:**

Awgrym	***Ymateb***
- Maes Astroturf dan do	***Does dim cynlluniau i ddarparu meysydd Astroturf dan do***
- Wal ddringo	***Syniad da a rhywbeth y gallwn ei ystyried***
- Clwb ieuenctid	***Petai clwb ieuenctid yn cael ei greu i annog plant iau i ddefnyddio adnoddau, byddai'n cael ei groesawu.***
- Pwll plant/pwll bas/pen bas yn y prif bwll	***Syniad da a rhywbeth rydym yn ei ystyried***
- Cafnau a byrddau plymio	***Does dim cynlluniau i ddarparu cafnau a byrddau plymio***

- Trac trim o amgylch ochr y safle	***Syniad diddorol ac mae wedi ei ystyried ond wedi ei ddiystyru oherwydd cyfyngiadau lle***
- Gweithgaredd awyr agored	***Syniad diddorol ond nid rhywbeth yr ydym yn ei ystyried***
- ***Sinema (mae'r un yn Y Barri newydd gau – problem o gadw pobl ifanc yn ddiddig)***	***Does dim cynlluniau i greu sinema ar y safle***
- Bowlio deg/Bowlio	***Does dim cynlluniau ar gyfer adnoddau bowlio deg ond rydym yn ystyried adnoddau bowlio dan do fel rhan o'r prif ganolfan chwaraeon a hamdden***
- Ardal chwarae gydag offer i blant	***Bydd Llety Teuluoedd sy'n Gwasanaethu yn cynnwys darpariaeth Man Chwarae i Blant yn unol â gofynion Bro Morgannwg***
- Canolfan gymunedol/siop elusen	***Bydd canolfan gymunedol yn rhan o'r adnoddau ar gael i'r cyhoedd***
- Canolfan hwylio	***Nid ydym yn ystyried hyn***
- Neuadd chwaraeon ar gyfer amlddefnydd	***Bydd y neuadd chwaraeon yn gwneud hyn***
- Dawns	***Mae gan y ganolfan gymunedol a'r ganolfan hamdden y potensial i'w defnyddio i'r diben hwn***
- Llyfrgell a chaffi rhyngrwyd	***Syniad diddorol ac rydym bellach yn ystyried cynnwys caffi rhyngrwyd fel rhan o'r ganolfan hamdden. Dim cynlluniau ar gyfer llyfrgell***

c) Lleoliad

CWESTIYNAU AC ATEBION

1. **Pam na all yr adnoddau chwaraeon fod ar neu yn agos at y cwrs golff a pham na ellir symud y safle SFA oddi ar y cwrs golff?**

   Mae agosrwydd y Coleg Technegol Amddiffyn wedi pennu'r lleoliad gorau ar gyfer yr adnoddau chwaraeon a hamdden. Mae'r adnoddau hyn, er eu bod ar gael i'r cyhoedd, yno'n bennaf i wasanaethu personél milwrol gan mai nhw fydd yn eu defnyddio nhw fwyaf. Yn amlwg, mae'n gwneud synnwyr i'r adnoddau hyn fod mor agos â phosib at y CTA

2. **Pam nad yw'r adnoddau chwaraeon yn agosach at y boblogaeth leol e.e. yn agosach at Sain Tathan?**

   Mae agosrwydd y Coleg Technegol Amddiffyn wedi pennu'r lleoliad gorau ar gyfer yr adnoddau chwaraeon a hamdden. Mae'r adnoddau hyn, er eu bod ar gael i'r cyhoedd, yno'n bennaf i wasanaethu personél milwrol gan mai nhw fydd yn eu defnyddio nhw fwyaf. Yn amlwg, mae'n gwneud synnwyr i'r adnoddau hyn fod mor agos â phosib at y CTA

SYLWADAU AC YMATEBION

3. **Pwysig bod adnoddau mor hygyrch â phosib ac mae hyn yn golygu ystyried lleoliad yn ofalus**

   Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod yr adnoddau hynny sydd ar gael i'r cyhoedd yn hygyrch i bob rhan o'r gymuned. Fel y nodwyd eisoes, mae agosrwydd y Coleg Technegol Amddiffyn wedi pennu'r lleoliad gorau ar gyfer yr adnoddau chwaraeon a hamdden. Mae'r adnoddau hyn, er eu bod ar gael i'r cyhoedd, yno'n bennaf i wasanaethu personél milwrol gan mai nhw fydd yn eu defnyddio nhw fwyaf. Yn amlwg, mae'n gwneud synnwyr i'r adnoddau hyn fod mor agos â phosib at y CTA
   .

4. **Angen sicrhau bod y meysydd chwarae yn cael eu gosod mewn tir draenio da – nid corsiog**

   Bydd datrysiadau peirianneg y meysydd chwarae yn cynnwys datrysiadau draenio cynhwysfawr.

d) Arall

CWESTIYNAU AC ATEBION

1. **Fydd Ysgol Addysg Gorfforol yr RAF yn symud i'r safle?**

   Does dim cynlluniau i adleoli i'r safle ar hyn o bryd.

2. **Fyddai grwpiau o breswylwyr gyda diddordeb yn cael mynd ar ymweliad a'r safle i weld yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd yn MOD Sain Tathan?**

   Mae hwn yn syniad diddorol a rhywbeth y byddwn yn ei ystyried. Rydym yn gwerthfawrogi y byddai gan nifer o breswylwyr lleol ddiddordeb mewn gweld y safle fel y mae ar hyn o bryd.

3. **Beth fydd yn digwydd i'r cwrs golff – eisoes yn adnodd poblogaidd? Os fydd tyllau'n cael eu colli i adeiladu tai, fyddan nhw'n cael eu hailosod?**

   Bydd 172 o dai newydd, fydd yn darparu llety i Deuluoedd sy'n Gwasanaethu yn cael eu hadeiladu ar safle'r stadiwm/cwrs golff, fydd yn effeithio ar bedwar twll ar y cwrs golff. Fodd bynnag, mae Metrix a'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi ymgynghori'n agos gyda Chlwb Golff Sain Tathan trwy gydol y broses hon ac maent wedi ymrwymo i ailosod y tyllau hyn.

4. **Pwy fyddai'n gyfrifol am gynnal a chadw hir dymor yr adnoddau a phwy fyddai'n talu amdano?**

   Metrix fyddai'n gyfrifol am gynnal a chadw hir dymor yr adnoddau a byddai'r cytundeb PFI 30 mlynedd yn talu amdano. Efallai y bydd Cyngor Bro Morgannwg yn cymryd cyfrifoldeb am gynnal a chadw rhai o'r adnoddau lleol/mannau chwarae.

5. **Pwy fydd yn rhedeg yr adnoddau?**

   Metrix fyddai'n rhedeg a gweithredu'r adnoddau ond mae'r posibilrwydd bod Gwasanaethau Hamdden Bro Morgannwg yn cyfrannu yn cael ei drafod.

6. **Wrth i offer dorri, neu pan fo angen offer newydd, pwy fydd yn talu amdano?**

   Metrix fyddai'n gyfrifol am gynnal a chadw a darparu offer newydd, fyddai'n cael ei ariannu trwy gyfrwng y cytundeb PFI 30 mlynedd. Gweler cwestiwn 4: adnoddau chwarae.

7. **Mynegwyd pryder ynglyn â sicrhau plismona digonol. Oes yna gynlluniau i gael gorsaf heddlu ar y safle?**

   Ar hyn o bryd does dim cynlluniau i gael gorsaf heddlu ar y safle ond fe fydd Heddlu Milwrol yn cyflawni rôl debyg ar y safle.

8. **Pa weithgareddau fydd yn digwydd ar ffiniau'r safle a sut fydd hyn yn effeithio pobl sy'n cerdded o'i amgylch?**

   Does dim gweithgareddau wedi eu trefnu i ddigwydd ar ffiniau'r safle.

9. **Fydd adnoddau beicio ar y ffordd? Fydd darpariaeth ar gyfer trac beicio o amgylch yr holl safle?**

   Bydd y Ffordd Mynediad Gogleddol newydd yn cynnwys llwybr beicio. Does dim cynlluniau ar gyfer trac beicio o amgylch y safle.

SYLWADAU AC YMATEBION

10. **Mae'r gymuned wedi cael addewidion o'r blaen na chawsant eu gwireddu. Byddai'n drueni mawr petai hwn yn dilyn yr un patrwm**

    Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn a Metrix yn hollol ymrwymedig i'r prosiect hwn ac mae datblygiadau da wedi eu gwneud dros y misoedd diwethaf. Mae popeth ar y trywydd iawn ac rwy'n falch o allu cadarnhau y byddwn yn cyflwyno cais am gynllunio i Gyngor Bro Morgannwg ym mis Mai.

ii) Seilwaith lleol

CWESTIYNAU AC ATEBION

1. **Beth yn union fydd yr adnoddau meddygol a deintyddol yn eu darparu e.e. Damweiniau ac Argyfwng, gwelyau ysbyty?**

   Bydd yr adnoddau meddygol ar yr un lefel ag Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol ac felly'n cynrychioli adnoddau meddygol cynhwysfawr fydd ar gael i bersonél milwrol a'r rhai sy'n ddibynnol arnynt. Mewn argyfwng, byddai myfyrwyr yn cael eu cymryd i uned Damweiniau ac Argyfwng fel y byddech yn disgwyl. Bydd adnoddau deintyddol yn cael eu darparu ar gyfer personél milwrol.

2. **Fydd yna unrhyw adnoddau mamolaeth ar y safle?**

   Does dim cynlluniau i ddarparu adnoddau mamolaeth.

3. **Fydd yr hyfforddwyr sifilaidd sy'n gweithio yn y coleg yn cael defnyddio'r adnoddau meddygol?**

   Na. Bydd yr adnoddau meddygol ar gyfer personél milwrol a'r rhai sy'n dibynnu arnynt.

4. **Beth fydd yr effaith ar ysgolion lleol? I ba ysgol fydd y plant yn mynd?**

   Mae hwn yn bwynt o drafodaeth barhaus gyda Chyngor Bro Morgannwg a'r Adran Plant, Addysg, Addysg Gydol Oes a Sgiliau. Ar hyn o bryd nid ydym yn gwybod faint o blant o oedran ysgol fydd yn symud i'r Fro. Yn y pen draw, bydd yr ysgol y maent yn ei mynychu'n cael ei phennu gan Gyngor Bro Morgannwg.

   Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod Cynllun Addysg Sengl 2006 – 2008 yn nodi bod yna 1,309 o lefydd gwag mewn ysgolion cynradd ar draws y Fro sy'n cynrychioli 11% o'r holl lefydd gwag. Mae'r llefydd gwag hyn yn bennaf mewn ysgolion yn ardaloedd Y Barri a Llanilltud Fawr. Mewn ysgolion uwchradd, mae 618 o lefydd gwag ar hyn o bryd, 6% o'r holl lefydd gwag.

SYLWADAU AC YMATEBION

5. **Os oes angen cyfeiriad at ymgynghorwyr mewn ysbytai eraill, mwy, bydd hyn yn effeithio ar amseroedd aros**

   Yn seiliedig ar yr astudiaethau rydym wedi eu hymgymryd, nid ydym yn rhagweld y bydd datblygiad Sain Tathan yn cael unrhyw effaith ar amseroedd aros.

iii) Amgueddfa

CWESTIYNAU AC ATEBION

1. **Fydd yr amgueddfa'n cynnwys arteffactau/gwybodaeth archeolegol wedi ei ddarganfod ar y safle?**

   Pwynt diddorol. Bydd yr amgueddfa ar y safle yn Amgueddfa Peirianwyr Trydanol a Mecanyddol Brenhinol (REME) felly'n amlwg bydd yn canolbwyntio ar hanes milwrol. Fodd bynnag, o ystyried faint o amser mae MoD Sain Tathan wedi bod yn gweithredu, mae'n hollol ddichonadwy y gall

gwaith adeiladu ddadorchuddio eitemau ac arteffactau a fyddai'n addas i'w cynnwys o fewn yr amgueddfa.

2. **Fyddai'r amgueddfa'n gallu arddangos etifeddiaeth yr ardal leol?**

   Fel y nodir uchod, bydd yr amgueddfa ar y safle yn Amgueddfa Peirianwyr Trydanol a Mecanyddol Brenhinol (REME) felly'n amlwg bydd yn canolbwyntio ar hanes milwrol. Mae'n annhebygol felly y bydd yn cynnwys manylion ynglyn ag etifeddiaeth ehangach yr ardal, ar wahân i mewn cyd-destun milwrol.

3. **Allai cymdeithas hanes Sain Tathan gael ei sefydlu ar y safle fel atodiad i'r amgueddfa?**

   Fel nodwyd, amgueddfa filwrol fydd hon ond efallai bod yna botensial i ymchwilio'r posibilrwydd o greu cymdeithas hanes Sain Tathan yn y tymor hir.

4. **Faint o bobl fydd yr amgueddfa'n ei ddenu ac a fydd hyn yn achosi problemau gyda thraffig?**

   Mae'r Asesiad Traffig yn ystyried yr holl weithgareddau ar y safle. Er ein bod yn gobeithio y bydd yr amgueddfa'n boblogaidd iawn, nid ydym yn teimlo y bydd yn creu problem gyda thraffig.

SYLWADAU AC YMATEBION

5. **Efallai y byddai'r amgueddfa'n well yn Y Barri ynghyd a'r amgueddfa rheilffordd**

   Mae'r amgueddfa'n rhan o ethos milwrol a hyfforddiant cyffredinol y safle a theimlir na fyddai'n addas i'w lleoli yn unman arall.

6. **Byddai'n dda i gadw'r amgueddfa ar agor yn hwyrach er mwyn denu pobl ifanc gyda'r nos – mae diffyg adnoddau ar gyfer grwpiau oedran iau yn yr ardal**

   Syniad diddorol. Mae oriau agor eto i'w cadarnhau ond mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn ei ystyried.

7. **Cysylltwch yr amgueddfa gyda'r arfordir treftadaeth**

   Does dim cynlluniau i gysylltu'r amgueddfa gyda'r arfordir treftadaeth.

8. **Mae angen adnoddau toiledau a chaffi i blant fwyta brechdanau**

   Mae toiledau ac adnoddau lluniaeth yn debygol o gael eu cynnwys yn rhan o'r amgueddfa.

9. **Byddai'n dda petai'r amgueddfa'n adlewyrchu syniad o le a hanes yr ardal leol a Sain Tathan ei hun**

   Mae adlewyrchu cysylltiad â hanes milwrol hir Sain Tathan yn debygol o fod yn rhan o arddangosfeydd yr amgueddfa.

iv) Creche

CWESTIYNAU AC ATEBION

1. **Fyddai creche newydd yn ategu at yr un sydd eisoes yn bodoli yn Y Man Ymgynnull?**

   Bydd creche yn cael ei ddarparu yn agos at yr adnoddau chwaraeon. Bydd y creche o faint addas ar gyfer anghenion y boblogaeth filwrol. Bydd cyfle i'r gymuned ehangach ddefnyddio'r adnoddau hyn os oes llefydd gwag ar gael unwaith i anghenion dibynyddion personél milwrol a Metrix gael eu diwallu.

SYLWADAU AC YMATEBION

2. **Bydd cefnogaeth gyffredinol i'r creche am fod angen parhaus am fwy o lefydd creche**

   Gweler yr ateb uchod os gwelwch yn dda.

3. ***Mae gofal plant yn y Fro yn ddrud yn gyffredinol***

   Gweler yr ateb uchod os gwelwch yn dda.

4. **Oherwydd creche y Man Ymgynnull, byddai'n dda i gael un ar y safleoedd mwy i'r gorllewin. Byddai yn agos at y ganolfan chwaraeon yn dda. Roedd bob amser dau creche ar y safle (G a D)**

   Bydd creche yn cael ei ddarparu yn agos at yr adnoddau chwaraeon.

v) Siop Spar

CWESTIYNAU AC ATEBION

1. **Fydd yna adnoddau manwerthu i bobl yn y Coleg eu defnyddio?**

   Bydd. Bydd y siop Spar presennol yn cael ei chadw/gwella.

2. **Fydd swyddfa'r post yn aros ar y safle?**

   Bydd y swyddfa ddidoli'n adleoli o'r safle i leoliad mwy addas. Fodd bynnag byddai cadw gwasanaeth cownter yn bosib ar gyfer hyfforddeion a gallai fod yn rhan o siop Spar.

3. **Ydi siop Spar yn dal yn eiddo i NAAFI?**

   Mae siop Spar yn eiddo i Lywodraeth Cynulliad Cymru ond yn cael ei rhedeg gan Aramark ar ran NAAFI.

SYLWADAU AC YMATEBION

4. **Mae adnodd manwerthu'n hanfodol i bobl leol – yn arbennig y rhai ar incwm isel**

Diolch am eich sylw.

5. **Fydd yr adnodd manwerthu'n aros ar agor trwy gydol y cyfnod adeiladu? Gwelir hyn fel mater pwysig**

   Ni fydd prif waith adeiladu'r Coleg Technegol Amddiffyn yn effeithio'n uniongyrchol ar yr adnodd manwerthu.

6. **Fydd y siop yn cynyddu o ran maint? Fyddai gwerthwyr lleol ddim yn hapus petai hynny'n digwydd**

   Tra bydd yr adnodd yn cael ei wella a'i foderneiddio, nid yw ei faint cyffredinol yn debygol o gynyddu.

vi) Adnoddau Eraill

CWESTIYNAU AC ATEBION

1. Fydd y sinema ar agor i'r cyhoedd?

Ar un adeg, roedd adeiladu sinema'n cael ei ystyried fel rhan o'r cynigion ond oherwydd cost a lefelau tebygol o alw, ni fydd hyn yn digwydd. Yn hytrach, bydd hyfforddeion yn gallu gwylio ffilmiau mewn ystafell gyffredin. Byddai hyn ar gyfer personel milwrol yn unig.

2. Fydd y band pres yn parhau ar y safle? A allai gael ei integreiddio gyda band REME?

Rhagwelir y bydd y band pres yn parhau ar y safle yn ogystal â band REME. Does dim cynlluniau i integreiddio'r ddau fand.

3. A ellid gwneud lle ar gyfer 'gweithgareddau allgyrsiol' fel dosbarthiadau nos?

Byddai'r Ganolfan Gymunedol ar gael ar gyfer y math hwn o weithgaredd.

4. A ellir cael caffi rhyngrwyd i bobl ifanc ei ddefnyddio?

Syniad diddorol ac rydym yn ystyried cynnwys caffi rhyngrwyd fel rhan o'r ganolfan hamdden.

5. Fydd yna adnoddau hyfforddi cadlanciau ar y safle?

Mae hyfforddi cadlanciau ar y safle ar hyn o bryd a rhagwelir y bydd hyn yn parhau.

6. Fydd yna 'siop' addysgiadol y gall pobl ifanc sydd am ymuno a'r Lluoedd Arfog ymweld â hi er mwyn cael gwybodaeth?

Syniad diddorol a rhywbeth y byddwn yn ei ystyried.

7. Fydd y ganolfan ffydd yn cael ei defnyddio fel neuadd gymunedol? Os felly, byddai hyn yn cystadlu gyda'r Man Ymgynnull

Ni fyddai'r ganolfan ffydd yn cael ei defnyddio fel neuadd gymunedol.

8. Ydych chi'n adeiladu'r ganolfan ffydd am ei fod yn swnio'n dda neu oherwydd bod galw amdano?

Mae'n ofynnol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn bod datblygiad o'r natur hwn yn cynnwys canolfan aml ffydd. Teimlir ei bod yn bwysig bod lle ar y safle ble gall unigolion sy'n gwasanaethu addoli amryw o grefyddau.

SYLWADAU AC YMATEBION

9. Angen mannau chwarae i blant yn agos at y tai – mae hyn wedi digwydd yn y gorffennol ond mae cynnal a chadw'n broblem

Bydd Llety Teuluoedd sy'n Gwasanaethu yn cynnwys darpariaeth Man Chwarae i Blant yn unol â gofynion Bro Morgannwg

10. Byddai Sant Brewis yn dda ar gyfer grwpiau bach sydd ddim yn gallu defnyddio lleoliadau eraill (mae gan Y Bontfaen ystafelloedd ar gyfer arlunio, ffotograffiaeth ayb)

Syniad diddorol ond fel adeilad rhestredig o gryn bwysigrwydd teimlir y byddai'r gwaith fyddai ei angen i ddod a'r adeilad i safon addas ar gyfer defnydd cymunedol naill ai'n difrïo'r adeilad ei hun a/neu angen cryn newid ar yr adeilad. Cynnig Metrix yw atal dirywiad yr adeilad, a sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd ymweld ag ef i weld y murlun y tu fewn a/neu ei ddefnyddio fel man ar gyfer myfyrdod tawel.

Er mwyn ei ddefnyddio'n effeithiol bydd angen i Sant Brewis gael ei wresogi ayb - yn barod i'w ddefnyddio pan fo rhywun yn camu i mewn iddo

Gweler yr ateb uchod os gwelwch yn dda.

vii) Sylwadau cyffredinol

CWESTIYNAU AC ATEBION

1. A fydd arwyddion ar y safle'n ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg)?

Mae'n arferol bod pob arwydd parhaol a dros dro sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog ac, er bod angen cadarnhau hyn, rhagwelir y bydd yr arfer yn cael ei fabwysiadu ar gyfer pob rhan o MoD Sain Tathan sydd ar agor i'r cyhoedd.

Parthed y Parc Busnes Awyrofod, mae'n ofynnol bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n dilyn ei Gynllun Iaith Gymraeg sy'n nodi fel a ganlyn am arwyddion ar ac mewn adeiladau:

'Bydd unrhyw arwyddion dros dro a pharhaol ac arwyddion newydd ac arwyddion sy'n cael eu hadnewyddu yn ddwyieithog mewn perthynas gyda thir ac eiddo y mae Llywodraeth y cynulliad yn berchen arno ac yn ei ddefnyddio.'

2. Allai gwefan y datblygiad gynnwys 'hedfan trwy' neu 'fly-throughs'?

Syniad da. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn edrych arno ar hyn o bryd ac y byddem yn anelu i'w roi ar y wefan.

3. Ydych chi'n ymgynghori gyda'r heddlu lleol?

Ydym. Rydym wedi ymgynghori gyda'r heddlu ers y cychwyn cyntaf.

4. Pam ei bod yn hanfodol i adeiladu ar y cwrs golff?

Mae'n bwysig bod y Llety i Deuluoedd sy'n Gwasanaethu yn cael ei adeiladu'n agos at y Coleg Technegol Amddiffyn er mwyn cwrdd â hynny o'n golau cynaladwyedd a phosib.

Bydd 172 o dai newydd, fydd yn darparu llety i Deuluoedd sy'n Gwasanaethu yn cael eu hadeiladu ar safle'r stadiwm/cwrs golff, fydd yn effeithio ar bedwar twll ar y cwrs golff. Fodd bynnag, mae Metrix a'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi ymgynghori'n agos gyda Chlwb Golff Sain Tathan trwy gydol y broses hon ac maent wedi ymrwymo i ailosod y tyllau hyn.

5. Roedd gan yr Hen Wersyll glwb radio amatur ers talwm – allwn ni gael un newydd?

Syniad diddorol ond ar hyn o bryd does dim cynlluniau ar gyfer clwb radio amatur ar y safle.

6. Mae yna dir braenar i'r gogledd o'r gwersyll ger y siediau ar y ffens derfyn – ydi hi'n bosib cadw hwn?

Mae hwn yn rhywbeth sydd angen ystyriaeth bellach.

7. Mae'r briff gwreiddiol yn son am ryw 7.5 acer o fastiau ar y safle - i ble fyddan nhw'n mynd?

Mae'r prif gynllun ar hyn o bryd yn dangos ardal ar gyfer codi mastiau a hyfforddi milwrol wedi ei leoli tua phen gogleddol Picketston.

SYLWADAU AC YMATEBION

8. Mae'r ailddatblygiad ar raddfa rhy fawr i'r ardal leol. Ni fydd yn gymuned wledig

Er bod rhai rhannau o'r ailddatblygu'n ymestyn y tu hwnt i'r ffin bresennol, fel y Llety Teuluoedd sy'n Gwasanaethu, mae llawer o'r ailddatblygiad o fewn y safle.

Mae hefyd yn werth cofio bod MoD Sain Tathan wedi bod yn rhan o'r gymuned ers 1938 ac yn ei anterth roedd yn gartref i ryw 10,000 o bersonél milwrol. Er bod y cynlluniau ailddatblygu'n sylweddol, hyd yn oed pan fydd wedi ei gwblhau ac yn gweithredu'n llawn, bydd poblogaeth Sain Tathan yn dal yn llawer llai na'r ffigwr hwn.

- ends -